# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Chris Holley | Adran Etholiadol: | Cwmbwrla |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Roeddwn ac rwy'n parhau i fod ar gael i'm hetholwyr ar e-bost, dros y ffôn neu'n bersonol. Rwyf wedi delio â llawer o bryderon a materion a godwyd megis: parcio preswylwyr, tipio anghyfreithlon, ymholiadau tai, problemau ar y briffordd h.y. tyllau ffordd, goleuadau stryd, materion trwyddedu gyda thafarndai yn y ward.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd cyrff y cyngor penodol

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 17 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Cydbwyllgor Penodiadau | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **CYFFREDINOL** | **37** | **/** | **41** | **90** | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Twristiaeth | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Craffu Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i | 10 | / | 10 | 100 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Lles | 5 | / | 6 | 83 | % |
| **CYFFREDINOL** | **30** | **/** | **33** | **91** | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Aelod o Baneli Ymchwilio Craffu (fel a nodwyd uchod). Roeddwn yn Cynullydd Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd a phan ddaeth hwnnw i ben, trosglwyddais i Banel Craffu Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, a fu'n edrych ar:

- Ein cartrefi preswyl
- Gwasanaethau Gofal Dydd
- Gofal yn y cartref

Roeddwn hefyd yn aelod o'r canlynol:

- Pwyllgor Penodiadau,
- Panel Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr.

Mynychais hefyd nifer o gyfarfodydd unigryw gydag uwch swyddogion.

Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Burlais. Y llynedd, roedd yn rhaid i ni reoli dau safle ar Heol Manor a Stryd Stepney cyn symud i ysgol newydd ym mis Medi 2015.

## Rhan 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Bu eleni'n flwyddyn anodd mewn sawl ffordd, yn arbennig gyda'r materion parhaus am doriadau yn y gyllideb a lleihau staff a gwella gwasanaethau.

Fel Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf, fy mhrif rôl yw cyflwyno fy nghynlluniau fy hun ar gyfer y gyllideb ac fe'i cyflwynais gerbron yr holl wrthbleidiau eraill yn y cyngor. Gwnaethant gefnogi'r awgrymiadau hyn yn llawn.

Yn anffodus pan gafodd y newidiadau hyn eu rhoi gerbron cyfarfod y cyngor, cawsant eu gwrthod gan y Blaid Lafur sydd mewn grym. Yn ogystal, dywedodd y prif Swyddog Ariannol na allai gefnogi fy ngwelliant. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y cyngor y byddai'n rhaid iddo benderfynu a oedd yn fodlon cymryd y risg.

Yn ogystal, anfonais y cynigion i'r holl ysgolion yn Abertawe. Gwnes i hyn gan mai prif ran fy nghyllideb oedd atal unrhyw doriadau i'r gyllideb addysg drwy gymryd arian o wariant trydydd partïon.

## Rhan 5: Dysgu a datblygu

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

25/11/2014 - Gwneud y defnydd gorau o Wybodaeth Berfformiad
23/10/2014 - Diogelu
03/07/2014 - Hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth

Yn ogystal, cefais ychydig o hyfforddiant cyfrifiadur tabled gyda darparwr allanol a hyffordiant rheoli amser.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ar wahân i'm gwaith gyda'r cyngor, gweithiais yn galed yn fy ward ac fel cadeirydd corff llywodraethu'r ysgol leol (Burlais).

Eleni, roedd hi'n flwyddyn Etholiad Cyffredinol a gymerodd lawer o amser aelodau lleol.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Uwch gyflog: £22,000 Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 08.07.15 |